amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn am y Nadolig

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Mathew 1: 18-25

Mae'r stori hon yn sôn am:
Joseff yn ufuddhau i Dduw, hyd yn oed pan oedd pethau'n anodd.

Stori 1 Joseff a'r Angel

Roedd Mair a Joseff yn bwriadu priodi, ond un diwrnod dywedodd Mair wrth Joseff ei bod yn disgwyl babi. Gwyddai Joseff nad ef oedd y tad, felly, er ei fod yn caru Mair yn fawr iawn, penderfynodd na fyddai'n ei phriodi.

Un noson, cafodd Joseff freuddwyd. Daeth angel ato a dweud, "Paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd mae'r Baban wedi ei genhedlu o'r Ysbryd Glân."

Roedd hyn yn golygu nad dyn oedd tad y Baban – Mab Duw oedd Hwn!

Mab __ __ __ yw Iesu.

(Ysgrifennwch y llythrennau sydd ar goll)

Dywedodd yr angel wrth Joseff y dylai roi enw arbennig i'r Baban, sef Iesu.

Mae'r enw hwn yn un arbennig oherwydd ei ystyr yw 'Gwaredwr'.

Lliwiwch y geiriau a lefarodd yr angel wrth Joseff.

"Gelwi Ef Iesu, am mai

Ef a wareda

Ei bobl oddi wrth eu pechodau."

Pan ddeffrodd Joseff o'i freuddwyd, ufuddhaodd i orchymyn yr angel ac fe briododd Mair.